# Llawlyfr Addysg yn y Cartref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Mae addysg yn bwysig

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn gael cyfleoedd i ddysgu, tyfu a datblygu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgu a datblygu plentyn ifanc yn digwydd yn y cartref. Wrth iddyn nhw dyfu, mae mwyafrif y rhieni'n dewis ysgol, ond mae rhieni eraill yn addysgu eu plant yn y cartref.

**Rydyn ni'n parchu'r penderfyniad hwn ac eisiau cefnogi pob rhiant.**



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni:

- sy'n ystyried addysg yn y cartref
- sydd eisoes yn addysgu yn y cartref

Mae'n ateb rhai o'r cwestiynau y mae rhieni'n eu gofyn ynglŷn ag addysg yn y cartref.

## Hawliau

**Yng Nghymru, rydyn ni'n amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc.**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn manylu ar eu hawliau.

**Erthygl 28:** Mae gan blant yr hawl i addysg.

**Erthygl 12:** Mae gan blant yr hawl i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Rhieni sy'n penderfynu sut y mae addysg yn digwydd. Wrth ddewis, fe ddylen nhw ystyried sut y mae eu plant yn teimlo, a'u cynnwys nhw.

# Ynglŷn ag addysg yn y cartref

### Beth ydy fy hawliau i fel rhiant?

Mae gennych chi'r hawl i ddewis y math o addysg rydych chi'n meddwl sydd orau i'ch plentyn chi.

### Beth ydy fy nghyfrifoldeb i fel rhiant?

Mae'r Ddeddf Addysg yn dweud bod yn rhaid i rieni plant oedran ysgol wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael addysg effeithlon, amser llawn. Mae'n rhaid i'r addysg fod yn addas ar gyfer:

- eu hoedran, eu gallu, eu doniau
- unrhyw anghenion arbennig sydd ganddyn nhw

Gall hyn ddigwydd trwy fynychu ysgol neu fel arall.

### Oes angen i mi gael caniatâd i addysgu yn y cartref?

Nac oes, dim ond os ydy'ch plentyn yn mynd i ysgol arbennig. Os ydy, mae angen ichi gael caniatâd yr awdurdod lleol gyntaf. Fe fydd yr awdurdod lleol yn gwirio sut y mae'ch plentyn yn dod ymlaen bob blwyddyn nes y daw ei ddatganiad i ben.

### Oes angen i mi fod yn athro neu'n athrawes i addysgu yn y cartref?

Nac oes, a does dim angen unrhyw gymwysterau penodol arnoch chi.

### Beth ydy addysg yn y cartref?

Addysg yn y cartref ydy pan fydd rhieni'n penderfynu addysgu eu plentyn yn y cartref yn hytrach na'i anfon i'r ysgol.

Rydych chi'n cymryd y cyfrifoldeb am addysg eich plentyn.

### Oes angen i mi fod ag ystafell ddosbarth yn fy nhŷ?

Nac oes, does dim rhaid ichi gael ystafell neu offer penodol.

### Oes yn rhaid i mi gadw at yr un dyddiadau â chalendr ysgol?

Nac oes, fe allwch chi drefnu'ch calendr a'ch amserlen eich hun.



## Beth sydd angen i mi feddwl amdano?

Mae addysgu'ch plentyn yn y cartref yn benderfyniad mawr. Fe ddylech chi ystyried:

- Oes gennych chi'r amser y bydd hyn yn ei gymryd?
- Sut mae'ch plentyn yn teimlo am y syniad?
- Pa gefnogaeth sydd gennych chi?
- Allwch chi ddod o hyd i gyfleoedd i'ch plentyn wneud pethau mewn grwpiau a gwneud gweithgareddau cymdeithasol?
- Allwch chi ddod o hyd i gyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a phethau eraill?

## Os ydw i'n penderfynu addysgu yn y cartref, beth ddylwn i ei wneud?

Os ydy'ch plentyn yn mynychu ysgol, **mae'n rhaid ichi ysgrifennu at y pennaeth.** Dywedwch wrthyn nhw eich bod chi'n cymryd y cyfrifoldeb am addysg eich plentyn. Gofynnwch iddyn nhw dynnu enw'ch plentyn oddi ar y gofrestr. Fe fydd y pennaeth yn dweud wrth eich awdurdod lleol.

Os na fyddwch chi'n rhoi gwybod iddyn nhw, fe allwch chi gael eich erlyn am absenoldeb eich plentyn.

Os nad ydy'ch plentyn yn yr ysgol, does dim rhaid ichi ddweud wrth unrhyw un. Ond rydyn ni'n argymell dweud wrth yr awdurdod lleol.



## A fydd fy mhlentyn yn methu'r agwedd gymdeithasol o ysgol?

Mae plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn aml yn cyfarfod ac yn cymdeithasu â phobl eraill o bob oedran. Ond efallai y bydd yn rhaid ichi greu'r cyfleoedd.

Mae yna grwpiau i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a chlybiau a grwpiau lleol eraill y gall eich plentyn ymuno â nhw.

## A fydda' i'n cael unrhyw gyllid?

Nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol i ariannu addysg yn y cartref. Rydych chi'n cymryd y cyfrifoldeb llawn am bopeth, gan gynnwys llyfrau, deunyddiau, cyrsiau a ffioedd arholiadau.

## Ydy fy mhlentyn yn gallu mynd yn ôl i'r ysgol os mai dyna y mae eisiau ei wneud?

Ydy, cysylltwch â'r awdurdod lleol. Does dim gwarant y bydd yn cael lle yn yr ysgol y gwnaeth ei gadael neu ysgol o'ch dewis chi.

**Os ydw i'n teimlo bod ysgol yn pwyso arna' i addysgu yn y cartref, beth ddylwn i ei wneud?**

Ddylai ysgolion fyth bwyso ar unrhyw un i addysgu yn y cartref. Dydy hyn ddim yn dderbyniol.

Os ydy hyn yn digwydd, fe ddylech chi siarad â'r awdurdod lleol. Fe ddylen nhw weithio gyda chi i ddelio ag unrhyw broblemau.

Os ydych chi'n cael problemau ag ysgol, yna siaradwch â'ch awdurdod lleol. Maen nhw'n gallu edrych ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol, fel Uned Cyfeirio Disgyblion.



# Beth i'w addysgu

**Oes yn rhaid i mi ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol?**

Nac oes, ond mae'n ddefnyddiol i gyfeirio ato. Mae hi i fyny i chi sut y mae'ch plentyn yn dysgu.

**Pa addysg ddylwn i ei darparu?**

Fe ddylai eich addysg plenty ei helpu i:

- ennill gwybodaeth
- gwneud cynnydd
- cynyddu dealltwriaeth
- datblygu sgiliau
- meddwl a dysgu drosto'i hun

**Beth ydy ystyr addysg 'amser llawn'?**

Does dim diffiniad cyfreithiol o amser llawn.

Mae'n gallu bod yn anodd trefnu addysg yn y cartref i amseroedd penodedig. Mae addysg yn y cartref yn aml wedi'i gymysgu i mewn i fywyd bob dydd.

**Beth ydy ystyr addysg 'addas' ac 'effeithlon'?**

**Addas** – mae'n paratoi plant ar gyfer bywyd ac yn eu helpu nhw i gyflawni eu potensial llawn.

**Effeithlon** – mae'n gweithio ac yn cyflawni ei nodau.

# Sut i addysgu

## Sut ydw i'n addysgu?

Mae yna wahanol arddulliau a ffyrdd o fynd ati i addysgu. Mae gan rai pobl amserlen strwythuredig a chwricwlwm. Mae rhai yn gadael i'w plant ddysgu trwy brofiad. Mae rhai yn ei drin fel siwrnai o ddarganfod gan ddilyn diddordebau eu plentyn.

Beth bynnag y byddwch chi'n ei ddewis, mae angen cynllun arnoch chi i wneud yn siŵr bod eich plentyn yn datblygu sgiliau sylfaenol fel iaith, llythrennedd a rhifedd.

## Beth sy'n cael ei ystyried yn addysg dda?

Mae addysg dda yn:

- **eang** – gydag amrywiaeth fawr o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau
- **cytbwys** – gyda digon o amser i ddysgu pwnc ond heb wthio rhannau eraill o ddysgu o'r neilltu
- **perthnasol** – gyda dysgu sy'n rhoi cyfleoedd nawr ac yn eu paratoi nhw ar gyfer bywyd fel oedolion
- **datblygiadol** – gyda gweithgareddau sy'n gweddu i alluoedd a doniau'ch plentyn

## Alla' i hurio tiwtor preifat?

Gallwch, mae hi i fyny i chi sut rydych chi'n addysgu'ch plentyn. Os y byddwch chi'n hurio tiwtor, fe fydden ni'n argymell eich bod chi'n:

- eu cyfweld
- gwirio'u geirdaon
- gweld eu gwiriad heddlu Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- peidio â'u gadael ar eu pennau eu hunain gyda'ch plentyn
- peidio byth â defnyddio ystafell wely fel man i astudio

## Beth ydy addysg hyblyg?

Addysg hyblyg ydy pan fydd plentyn yn treulio rhai diwrnodau yn yr ysgol, ac eraill yn cael addysg yn y cartref. Gallwch chi drefnu hyn ag ysgol, ond mae hi i fyny i'r pennaeth benderfynu.

Mae'n wahanol i addysg yn y cartref gan fod enw'r plentyn dal ar gofrestr yr ysgol.



# Arholiadau ac addysg bellach

### Beth ddylwn i ei wneud ynglŷn ag addysg bellach?

Pan fydd eich plentyn yn 16 oed, ac eisiau parhau ag addysg amser llawn gall:

- Ddychwelyd i ysgol sydd â chweched dosbarth. Mae angen ichi gysylltu â'r coleg neu'r ysgol mor gynnar â phosibl.
- Mynd i Goleg Addysg Bellach. Gallwch chi gael prosbectws o'ch Coleg Addysg Bellach lleol i wneud cais.
- Cael hyfforddiant seiliedig ar waith neu brentisiaeth fodern. Gallwch chi gysylltu â Gyrfa Cymru i gael gwybod am gyfleoedd.

### A fydd fy mhlentyn yn cael sefyll arholiadau?

Bydd. Ond fe fydd yn rhaid ichi gofrestru'ch plentyn ar gyfer arholiadau a thalu'r costau.

Cyn dechrau cwrs, meddyliwch am eich opsiynau:

- mae'n bosibl y bydd ysgol neu goleg yn gadael i'ch plentyn sefyll arholiadau TGAU ac y bydd yn asesu ei waith cwrs
- mae rhai byrddau arholi'n cynnig cymwysterau TGAU gyda meysydd llafur gwahanol
- mae TGAU Rhyngwladol ar yr un lefel â TGAU ond heb y gwaith cwrs

Mae yna lawer o gyrsiau a chymwysterau eraill ar gael hefyd.

Mae yna ddolenni i gyrsiau ar ddiwedd y llawlyfr hwn.



# Yr awdurdod lleol

### Beth y mae fy awdurdod lleol yn gyfrifol amdano?

Mae Deddf Addysg 1996 yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol wybod am y plant yn eu hardal.

### Ydy'r awdurdod lleol yn gallu gwirio addasrwydd addysg fy mhlentyn?

Ydy. Mae awdurdodau lleol yn gallu gofyn ichi am fanylion am addysg eich plentyn.  Does dim rhaid ichi eu rhoi iddyn nhw, ond hebddyn nhw, fyddan nhw ddim yn gallu penderfynu os ydy'ch plentyn yn cael addysg addas.

Er mwyn i awdurdod lleol fodloni'i hun bod yr addysg sy'n cael ei darparu'n addas, mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol weld a siarad â'r plentyn. Fe ddylen nhw weithio gydag amgylchiadau unigol pob teulu i benderfynu pryd i weld plentyn.

### Beth sy'n digwydd os ydy'r awdurdod lleol yn meddwl nad ydw i'n darparu addysg addas?

Fe fyddan nhw'n rhoi rhybudd ysgrifenedig ichi ac yn gofyn am wybodaeth am yr addysg y mae'ch plentyn yn ei chael.

Os oes ganddyn nhw bryderon ar ôl hyn, maen nhw'n gallu cyhoeddi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Mae Gorchymyn Mynychu'r Ysgol yn golygu bod yn rhaid i'ch plentyn ddod yn ddisgybl amser llawn ar y gofrestr yn yr ysgol sydd wedi'i henwi ar y Gorchymyn.

Mae gennych chi amser i dderbyn y Gorchymyn Mynychu Ysgol neu i roi mwy o wybodaeth i'r awdurdod lleol ac i herio'r gorchymyn.

### Beth alla' i ei ddangos i'r awdurdod lleol am ein haddysg yn y cartref?

Mae'n syml rhoi manylion iddyn nhw. Gallwch chi anfon:

- gwaith ysgrifenedig
- ffotograffau
- gwaith celf neu lyfr lloffion
- tystysgrifau
- blog neu ddyddiadur
- cyfryngau digidol
- dolen i wefan rydych chi wedi'i chreu
- adroddiad ysgrifenedig



# Diolch am ddarllen hwn

Rydyn ni eisiau cefnogi plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref cymaint â phosibl.

Rhowch wybod i ni beth ydy'ch barn ar y llawlyfr hwn erbyn 21 Hydref 2019. Anfonwch eich atebion i:

WellbeingSHARE@llyw.cymru

Nodwch **Ymgynghoriad Addysg yn y Cartref – WG35754** yn y llinell pwnc.

Y Gangen Lles Disgyblion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gallwch chi ddarllen y llawlyfr llawn yma:
llyw.cymru/addysg-ddewisol-yn-y-cartref



**Ydy'r llawlyfr yn glir?**

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

**Ydy'r llawlyfr hwn yn ddefnyddiol?**

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

**Er nad ydy addysg hyblyg yr un fath ag addysg yn y cartref, ydyn ni'n iawn i gynnwys hyn yn y llawlyfr?**

☐ Ydych ☐ Nac ydych ☐ Ddim yn gwybod

**Oes yna unrhyw beth arall y dylen ni ei gynnwys yn eich barn chi?**

☐ Oes ☐ Nac oes ☐ Ddim yn gwybod

**Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud wrthon ni?**